


YR EGLWYS
YNG NGHYMURU




THE CHURCH
IN WALES


Gweithio Gyda'n Gilydd i fod yn Eglwys Ddiogelach

**Ymateb yr Eglwys yng Nghymru i
Argymhellion Adroddiad (Hydref 2020)
yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin
Plant yn Rhywiol i Ddiogelu yn
Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru**

**Paratowyd gan Bwyllgor Sefydlog Corff
Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru**

Ebrill 2021





RHAGAIR GAN ARCHESGOB CYMRU

Mae gwaith ac adroddiad dilynol yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol wedi bod yn anodd ac yn ysgytwad i lawer o sefydliadau, gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth nid yn unig o achosion o gam-drin erchyll, ond hefyd o ymatebion sefydliadol brawychus o annigonol a oedd, yn rhinwedd eu diffygion, yn eu hunain yn sarhaus. Er fy mod am ddiolch i'r unigolion niferus a gynorthwyodd yn y gwaith paratoi a'r cyflwyniadau ar gyfer yr Ymchwiliad, mae'r diolchiadau hyn yn pylu'n ddibwys o'u cymharu â'r diolchgarwch sy'n ddyledus i'r holl ddiodefwyr a goroeswyr unigol hynny a oedd mor ddewr yn rhannu eu profiadau dirdynnol o gamdriniaeth a ddiodefwyd mewn ysgolion, cartrefi gofal, sefydliadau gwarchodol, ar y rhynggrwyd ac mewn cymunedau ffydd. Ni ddylent fod wedi gorfod gwneud hynny, nid dim ond oherwydd y dylai lefelau gwarchodol ac ymatebol ar yr adegau perthnasol fod wedi bod yn well, ond oherwydd na ddylai digwyddiadau mor ofnadwy fod wedi digwydd yn y lle cyntaf. Mae'r diodefwyr a'r goroeswyr hyn wedi ennill pob edmygedd ac yn haeddu ein diolch diffuant am eu dewrder wrth ddatgelu eu profiadau. Tristwch o'r mwyaf i mi hefyd yw'r achosion hynny pan nad oedd yr Eglwys yng Nghymru wedi rhoi cefnogaeth iddyn nhw.


Ond dydw i ddim yn twyllo fy hun. Mae ein Heglwys yn parhau ar daith, a'i nod yw sicrhau bod ei holl arferion diogelu o'r safon uchaf posibl. Rydym eisoes wedi dysgu llawer ac rydym wedi ymrwymo i barhau i ddysgu. Rwy'n falch o'r cynnydd a wnaethom hyd yma, yn cynnwys mewn perthynas â'r argymhellion a wnaed gan yr Ymchwiliad ym mis Hydref 2020. Ond rwy'n awyddus ein bod yn dal ati i wneud cynnydd a'n bod ni wir yn cyflymu yn hynny o beth, ar hyd y daith ac ar ôl i'r Ymchwiliad ddod i ben. Ac rwyf am ddatgan yn glir nad cyflawni'r gwaith parhaus hwn am ein bod yn destun craffu cyhoeddus a llywodraethol yr ydym, ond am mai dyma yw'r peth cwbl gywir a chyfrifol y dylem i'w wneud.

Mae llawer o'n gwaith diweddar fel eglwys wedi canolbwyntio ar wneud newidiadau ariannol, sefydliadol a strategol. Ond rhaid i newid ddigwydd nid yn unig yn ein hadnoddau, ein polisiau a'n prosesau, ond hefyd yn ein diwylliant. Nid trwy adnoddau a dogfennau polisi yn unig y gallwn ni ddileu diwylliant amhriodol ymostyngol i glerigion, i esgobion, tuedd i gredu'r oedolyn yn hytrach na'r plentyn, neu anghrediniaeth y gallai camdriniaeth ddigwydd neu y gallai fod yn digwydd yn ein cynulleidfaoedd ein hunain,. Mae llawer o'n gwaith parhaus i'w gyflawni ym maes diwylliant, drwy'r broses o wreiddio'r syniad mai cyfrifoldeb pawb yw diogelu, ac fel y dywed ein Polisi Diogelu, bod yn rhaid i'r Eglwys yng Nghymru gynnal diwylliant sefydliadol agored a thryloyw sy'n adlewyrchu pwysigrwydd diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl.

I orffen, rhaid i mi gyfleu fy niolch i dîm yr Ymchwiliad a'r staff sy'n cefnogi eu gwaith. Cefais fy nharo gan eu hymrwymiad, eu proffesiynoldeb, eu gofal a'u cefnogaeth fugeiliol tra'n gweithio yn y maes anodd hwn, maes sy'n aml yn ddirdynnol. Rwy'n parhau i fyfyrto a gweddïo dros bawb yr effeithiwyd arnynt mewn unrhyw fodd gan yr Ymchwiliad.

Y Gwir Barchedig John D E Davies
Archesgob Cymru





YMATEBION I ARGYMHELLION UNIGOL

Argymhelliad 3¹:

Dylai'r Eglwys [yng]² Nghymru wneud yn glir bod yn rhaid i gyngor gweithredol swyddogion diogelu taleithiol gael ei ddilyn gan bob aelod o'r glerigiaeth a swyddogion eraill yr Eglwys. Dylid ei ymgorffori mewn polisi y dylid tynnu'r rheini sy'n wirfoddolwyr ac nad ydynt yn dilyn cyfarwyddiadau swyddogion diogelu taleithiol oddi wrth weithio gyda phlant.

Cytunwn ei bod o'r pwys mwyaf fod cyngor gweithredol swyddogion diogelu taleithiol yn cael ei ddilyn gan bob swyddog eglwys, gan gynnwys clerigion. Byddwn yn gwneud hyn yn glir yn y diwygiadau sydd ar y gweill i'n polisi diogelu a'n dogfennau gweithdrefnol, ac yn ein deunyddiau hyfforddi.

Cytunwn ymhellach y dylid cael proses a chanlyniadau ar gyfer gwrthod neu fethiant i ddilyn y cyngor hwnnw. Credwn mai'r ffordd orau o weithredu a gorfodi hyn yn ymarferol yw gyda chymorth ein Panel Diogelu Taleithiol, sy'n monitro pob achos gweithredol ac sy'n annibynnol ar esgobion, esgobaethau a strwythurau gweinyddol canolog yr Eglwys yng Nghymru .

Mae awdurdodaeth Tribiwnlys Disgyblu'r Eglwys (sydd, fel y noda'r Adroddiad gyda chymeradwyaeth ym mharagraff D 53, yn llwyr ar wahân i'r Esgobaethau) yn ymestyn nid yn unig i glerigion, ond hefyd i ystod eang o leygion gan gynnwys ordinandiaid, wardeiniaid eglwysi a gweinidogion lleyg trwyddedig (a hyfforddeion) . Fel yr addawyd yn ein cyflwyniadau blaenorol i'r Ymchwiliad, rydym wedi cyflwyno achos gweithredu newydd yn y Tribiwnlys Disgyblu sef 'methiant i ddilyn cyngor y Panel Diogelu Taleithiol heb reswm rhesymol' . Mae'r sancsiynau sydd ar gael i'r Tribiwnlys yn cynnwys symud ac anghymhwysio rhag dal unrhyw swydd neu aelodaeth yn yr Eglwys yng Nghymru ac atal unrhyw swyddogaeth benodol. Mae pŵer hefyd (unwaith eto, sy'n arferadwy yn annibynnol ar esgob, os oes angen) o atal dros dro tra bo achosion ymchwilio a/neu ddisgyblu yn parhau.

Ni fydd rhai gwirfoddolwyr, oherwydd y rolau y maent yn eu dal, yn ddarostyngedig yn uniongyrchol i awdurdodaeth y Tribiwnlys Disgyblu. Cytunwn, fel pwynt polisi, y dylid ei gwneud yn glir y dylai'r rhai sy'n gwrthod dilyn cyngor neu gyfarwyddyd y swyddogion diogelu taleithiol gael eu hatal rhag gweithio gyda phlant. Mae gennym eisoes fodd i orfodi hyn i ddigwydd (er enghraifft mae modd i'r Panel Diogelu Taleithiol ddweud wrth y Periglor am atal y cyfryw wirfoddolwr, a dwyn achos disgyblu yn erbyn y Periglor os nad yw'n dilyn y cyfarwyddyd). Fodd bynnag, byddwn yn adolygu ein canllawiau gweithdrefnol i egluro'n glir y disgwyliad y dylid atal gwirfoddolwyr o'r fath rhag gweithio gyda phlant. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r canllawiau hyn erbyn hydref 2021.


¹ Mae argymhellion 1 a 2 yn ymwneud ag Eglwys Loegr yn unig.

² Mae Argymhelliad yr Ymchwiliad yn cyfeirio at 'Eglwys Cymru', gwall teipograffyddol.

³ Mae'r Panel Diogelu Taleithiol yn adrodd i Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, drwy ei Bwyllgor Sefydlog.

⁴ *Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru*, Pennod IX, Adran 9

⁵ *Canon Diogelu (Tribiwnlys Atal a Disgyblu) 2020*, cyhoeddwyd a daeth i rym ar 4 Tachwedd 2020.



Trwy osod y darpariaethau gorfodi hyn gan gyfeirio at y Panel Diogelu Taleithiol yn hytrach na'r Swyddogion Diogelu Taleithiol, credwn ein bod yn creu system fwy cadarn, heb un pwynt o fethiant pe bai cyngor anghywir yn cael ei roi. Er y bydd cyngor y Panel, yn y mwyafrif llethol o achosion, yn cyd-fynd â chyngor ac argymhellion y Swyddogion, mae'n rhoi cyfle i grŵp annibynnol wirio'r cyngor hwnnw cyn bod swyddog eglwys yn destun achos disgyblu am fethu â dilyn y cyngor hwnnw.

Argymhelliad 4:

Dylai'r Eglwys yng Nghymru gyflwyno polisiau cadw cofnodion sy'n ymwneud â diogelu, cwynion a chwythu'r chwiban. Dylai'r rhain gael eu gweithredu'n gyson ar draws esgobaethau. Dylai'r Eglwys ddatblygu polisiau a hyfforddiant ar y wybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi mewn ffeiliau. Dylai'r Eglwys roi'r hawl i'w swyddogion diogelu taleithiol weld ffeiliau personél clerigwyr, deiliaid swyddi, gweithwyr neu eraill os codir pryderon a chwynion am amddiffyn neu ddiogelu plant.

Cytunwn yn llwyr â'r argymhelliad hwn. Ym mis Ionawr 2020, lanswyd system genedlaethol ar-lein yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer cofnodi a rheoli achosion diogelu (fersiwn wedi'i haddasu o blatfform MyConcern a ddefnyddir yn helaeth ar draws y sector addysg, ffydd a chwaraeon) ac mae'n gweithredu fel un storfa chwiliadwy o holl ddata achosion diogelu a chwythu'r chwiban parthed diogelu yr Eglwys yng Nghymru. Mae'r wybodaeth yn y system yn cael ei phoblogi gan y Swyddogion Diogelu Taleithiol, ac mae gan y Swyddogion Diogelu Taleithiol fynediad llawn a digyfngiad i'r system gyfan.

Y model a fabwysiadwyd ac a nodir ym Maes Polisi Diogelu'r Eglwys yng Nghymru yw bod pob pryder o natur ddiogelu yn cael ei adrodd i Swyddog Diogelu Taleithiol, a bod gwaith achos o natur ddiogelu yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod polisiau'n cael eu gweithredu'n gyson ar draws esgobaethau.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu canllawiau gweithdrefnol sy'n cofnodi ein hymarfer o ran pa wybodaeth a gedwir, a sut y dylid cyfnewid gwybodaeth rhwng y systemau diogelu rheoli achosion a chofnodion personél a gedwir yn lleol gan esgobaethau. Bydd staff perthnasol (gan gynnwys esgobion, eu Cynorthwyr Personol a'r Swyddogion Diogelu) yn cael eu hyfforddi yn unol â'r canllawiau gweithdrefnol hyn erbyn diwedd 2021.

Eisoes mae gan Swyddogion Diogelu Dros Dro hawl a ymgorfforwyd mewn polisi ysgrifenedig, i weld ffeiliau personél clerigion. Cytunwn fod angen i'n canllawiau gweithdrefnol egluro i wahanol gyflogwyr staff eglwysig eraill (gan gynnwys Corff y Cynrychiolwyr, Byrddau Cyllid Esgobaethol a Chynghorau Eglwysy Plwyfol) fod yr un peth yn wir am bersonél lleig. Cyhoeddir y canllawiau hyn fel rhan o'r dogfennau Diogelu ategol erbyn hydref 2021.

⁶ Cyhoeddiad ar-lein yn:

https://www.churchinwales.org.uk/cy/publications/administration-and-business/Safeguarding_Documents

⁷ Polisi Ffeiliau Personol Clerigion yr Eglwys yng Nghymru (argraffiad Chwef 2020).



Argymhelliad 5:

Dylai Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru gytuno a gweithredu protocol rhannu gwybodaeth ffurfiol. Dylai hyn gynnwys rhannu gwybodaeth am glerigwyr sy'n symud rhwng y ddwy Eglwys.

Rydym yn cytuno ac yn cefnogi'r argymhelliad hwn yn frwd. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi mynegi pryder yn y gorffennol am absenoldeb cyfnewid gwybodaeth lawn a chyflawn lle mae clerigion yn croesi ffiniau cenedlaethol, ac rydym wedi codi'r mater hwn o'r blaen yn ein cyflwyniadau i'r Ymchwiliad.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cymryd nifer o gamau i helpu i gyflwyno protocol o'r fath. Rydym eisoes wedi sicrhau bod yr holl gofnodion perthnasol yn cael eu cadw gan un rheolydd data (Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru) fel mai dim ond un parti Cymreig sydd ei angen er mwyn ymrwmo i brotocol o'r fath. Rydym wedi adolygu ein polisiau cadw cofnodion a'n hamserlenni cadw cofnodion a'u safoni lle bynnag y bo modd gyda'r polisiau a weithredir gan Eglwys Loegr, er mwyn rhoi hyder y caiff cofnodion eu rheoli mewn ffordd gyson pan gânt eu trosglwyddo o'r naill eglwys i'r llall.


Credwn, felly, fod yr holl rwystrau i gyflwyno protocol rhannu gwybodaeth wedi'u dileu ar ochr Cymru, a chafodd hyn ei gyfleu i Sefydliadau Canolog Cenedlaethol Eglwys Loegr ym mis Hydref 2020. Deallwn fod angen cyfres fwy cymhleth o gytundebau mewnol ar gyfer y dwsinau niferus o reolyddion data Eglwys Loegr i sicrhau bod Eglwys Loegr mewn sefyllfa i ymrwmo i brotocol cynhwysfawr gyda'r Eglwys yng Nghymru. Gwahoddwyd cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru i gyfarfodydd diweddar grŵp gorchwyl rhannu gwybodaeth ddiogelu Eglwys Loegr ym misoedd Chwefror a Mawrth 2021, cam a werthfawrogwyd. Rydym yn parhau i fod yn barod i gwblhau'r trafodaethau hyn yn gyflym cyn gynted ag y bydd Eglwys Loegr mewn sefyllfa i ddatblygu cytundeb. Deallwn o'n hymngysylltiad diweddar â hwy y dylai fod yn bosibl cwblhau'r trafodaethau hyn a chyhoeddi polisiau a hysbysiadau preifatrwydd wedi'u diweddarau ym mis Gorffennaf 2021. Ein nod yw y byddai polisiau wedi'u diweddarau yn arwain at rannu ffeiliau personél yn llawn pan fydd clerigion yn symud rhwng Cymru a Lloegr a *vice-versa*.

Argymhelliad 6:

Dylai Eglwys Loegr, yr Eglwys yng Nghymru a phartneriaid statudol sicrhau bod protocolau rhannu gwybodaeth ar waith ar lefel leol rhwng esgobaethau a phartneriaid statudol.

Dyma gyd-argymhelliad ar gyfer Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru. Fel yr amlinellir yn fanwl mewn rhannau eraill o dystiolaeth yr Eglwys yng Nghymru i'r Ymchwiliad, o ystyried bod ein gwaith achos yn cael ei wneud a'i reoli yn genedlaethol yn hytrach nag yn esgobaethol, deallwn fod y cyfeiriadau at esgobaethau yn yr argymhelliad hwn yn berthnasol i Eglwys Loegr. Rydym wedi ei ddehongli fel petai'n cyfeirio at y Tîm Diogelu Taleithiol mewn perthynas â'r Eglwys yng Nghymru.

Rydym yn cytuno'n llwyr ac yn derbyn yr argymhelliad hwn. Yn ein trafodaethau cychwynnol gyda phartneriaid statudol, ymddengys yn debygol y bydd angen cytundebau unigol rhwng yr Eglwys a phob corff cyfansoddol mewn Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, credwn ei bod yn



hanfodol nad yw rhannu gwybodaeth fel hyn yn dibynnu ar 'loteri cod post' mewn gwahanol ranbarthau yng Nghymru, na Lloegr. Felly, i ddechrau, rydym wedi ceisio bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn ar sail genedlaethol i Gymru a Lloegr gyda'n cydweithwyr yn Eglwys Loegr. Rydym wedi bod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar y cyd â chynrychiolwyr Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ac Eglwys Loegr gyda'r bwriad o gytuno ar gytundeb rhannu gwybodaeth cenedlaethol, neu (os nad yw hynny'n bosibl) ar gytundeb rhannu templed gyda chanllawiau cenedlaethol ar sut y dylid ei gyflwyno ar draws pob sefydliad eglwysig a phob heddlu. Roeddem wedi gobeithio y byddai'r cynnydd ar hyn wedi bod yn gyflymach, ond rydym yn parhau i fod o'r farn mai'r ymateb gorau i'r argymhelliad hwn yw gytundebau cydgysylltiedig (neu gytundebau templed) ar lefel genedlaethol.

Rydym yn parhau mewn trafodaethau gydag Eglwys Loegr ynglŷn â'r ffordd orau o ddatblygu sgwrsiau cenedlaethol cydgysylltiedig (Cymru a Lloegr) gyda phartneriaid statudol eraill. O ganlyniad mae Eglwys Loegr wedi cysylltu'n ddiweddar ar ran y ddwy eglwys, gydag arweinydd diogelu'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Rydym hefyd yn bwriadu cychwyn trafodaethau cyfochrog â chwe Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cymru yn uniongyrchol ac (yn dibynnu ar y trafodaethau hynny) gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Argymhelliad 7:


Dylai Eglwys Loegr a'r Eglwys yng Nghymru gyflwyno polisi ledled yr Eglwys ar gyllid ac ar ddarparu cefnogaeth i ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol sy'n ymwneud â chlerigwyr, swyddogion yr Eglwys neu'r rhai sydd â rhywfaint o gysylltiad â'r Eglwys. Dylai'r polisi nodi'n glir yr amgylchiadau lle dylid cynnig gwahanol fathau o gefnogaeth, gan gynnwys cwnsela. Dylai wneud yn glir y dylid cynnig cefnogaeth bob amser cyn gynted â phosibl, gan ystyried anghenion y diodefwyr dros amser.

Dylai'r polisi ystyried barn diodefwyr a goroeswyr. Dylai fod yn orfodol i'r polisi gael ei weithredu ar draws pob esgobaeth.

Cytunwn â'r argymhelliad hwn.

Mae'r Eglwys yng Nghymru bellach wedi cyflwyno, yn genedlaethol, gefnogaeth ISVA (Cyngorydd Trais Rhywiol Annibynnol) i oroeswyr drwy ddwy ffynhonnell wahanol, sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol ar yr Eglwys a'i thîm diogelu Taleithiol. Y cyntaf yw 'Safe Spaces', a weithredir gan Gymorth i Ddiodefwyr (ac sy'n rhan o'u cefnogaeth ehangach i Eglwys Loegr, yr Eglwys yng Nghymru, a'r Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr). Mae'r ail yn benodol i'r Eglwys yng Nghymru ac yn cael ei gweithredu gan Llwybrau Newydd. Mae Llwybrau Newydd yn darparu gwasanaethau ISVA a chwmsela, gan gynnwys Prosiect Plant sy'n cynnig gwasanaeth cwmsela pwrpasol i blant sy'n ddiodefwyr a goroeswyr.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi ymrwmo i gynnig cyllid tuag at gwnsela o'r fath a allai gael ei argymhell gan yr ISVA yn yr achos perthnasol, lle'r oedd clerigion yr Eglwys yng Nghymru yn cyflawni camdriniaeth, neu yng nghyd-destun yr eglwys. Trefnir hyn ar lefel genedlaethol gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru i sicrhau triniaeth gyson ar draws pob un o'r chwe esgobaeth. Bydd digonolrwydd y ddarpariaeth hon yn cael ei adolygu'n rheolaidd, mewn ymgynghoriad â'n Panel Diogelu, y Pwyllgor Diogelu, a darparwyr y gwasanaeth ISVA (y cyfrwng ar gyfer gofyn am farn diodefwyr a goroeswyr).



Argymhelliad 8:

Dylai'r Eglwys yng Nghymru gyflwyno archwiliad allanol annibynnol o'i pholisïau a'i gweithdrefnau diogelu, yn ogystal ag effeithiolrwydd ymarfer diogelu mewn esgobaethau, eglwysi cadeiriol a sefydliadau Eglwys eraill. Dylid cynnal archwiliadau'n rheolaidd a dylid cyhoeddi adroddiadau.

Cytunwn â'r argymhelliad hwn. Rydym yn parhau i adolygu ein dogfennau a'n canllawiau gweithdrefnol yn sylweddol. Fel rhan o'r broses adolygu bydd y dogfennau yn destun craffu allanol. Yn ystod 2021, rydym yn bwriadu cynnal archwiliad o hapsampl o waith achos diogelu, a chytuno ar raglen fewnol (o dan oruchwyliaeth y Pwyllgor Diogelu Taleithiol, gan gymryd cyngor gan y Panel Diogelu Taleithiol) ac adolygiad ac archwiliad allanol gan gymheiriaid o ymarfer 'ar lawr gwlad' i'w gynnal yn 2022 a 2023. Ein bwriad yw cyhoeddi canfyddiadau'r archwiliadau allanol hyn, a'n bwriad yw y byddant yn dod yn rhan reolaidd o'n holl ystod o sicrhau ansawdd.

ADRODDIAD AR DDATBLYGIADAU DIWEDDAR ERAILL

Ym mis Medi 2020, penododd Pwyllgor Sefydlog Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru Mr Tony Young yn gadeirydd annibynnol newydd ar ei Banel Diogelu. Mae Mr Young yn aelod o Fwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, ac yn gyn-gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Caerdydd. Nid yw'n aelod o'r Eglwys yng Nghymru ac nid oes ganddo unrhyw gysylltiadau personol â'r eglwys. Am y tro cyntaf penderfynwyd y dylid talu rhywun i gyflawni'r rôl, fel cydnabyddiaeth o'r ymrwymiad amser sydd ei angen ar y rôl ac er mwyn sicrhau y gellid denu ymgeisydd o'r radd flaenaf.

Ym mis Chwefror 2021, dechreuodd y gwaith o ad-drefnu Llywodraethu Diogelu yn swyddfa genedlaethol yr eglwys. Y newid allweddol yw y bydd yr holl wasanaethau diogelu (polisi a gweithdrefn, gwaith achos, hyfforddiant) yn cael eu huno'n un tîm o dan un arweinydd. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n recriwtio Cyfarwyddwr Diogelu i arwain y tîm cyfun, sy'n rôl lawn amser lefel uwch yn y sefydliad, ac yn ychwanegol i'r rolau eraill a adroddwyd yn flaenorol i'r Ymchwiliad. Mae cyfweiliadau terfynol ar gyfer y rôl hon wedi'u trefnu ar gyfer 7-9 Ebrill 2021.

Ym mis Mawrth 2021 lanswyd Cronfa Ddata Hyfforddiant DBS a Diogelu newydd. Mae hyn yn darparu un gronfa ddata genedlaethol o glerigion, swyddogion eglwysig a gwirfoddolwyr sy'n cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ynghyd â manylion eu statws DBS a'u hachrediadau hyfforddiant diogelu. Mae hefyd yn cynnwys cofnodion o holl fynychwyr hyfforddiant diogelu'r Eglwys yng Nghymru, boed yn y cnawd neu ar-lein. Mae'r system yn darparu ar gyfer nodiadau atgoffa ac awgrymiadau awtomatig ar gyfer gwaith dilynol/gorfodi pan fydd yn amser adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu hyfforddiant diogelu.